www.gomer.co.uk


# Wini'r Wrach

Korky Paul a Valerie Thomas
Addasiad Emily Huws/Ann Jones



Diolch i wasg Gomer am eu caniatad i gynhyrchu deunyddiau digidol hyn

Roedd Wini'r Wrach yn byw
mewn tŷ du yn y goedwig.
Du oedd lliw popeth yno.
Roedd y carpedi'n ddu.
Roedd y cadeiriau'n ddu.
Roedd y gwely'n ddu,
a'r blancedi a'r cynfasau arno
i gyd yn ddu hefyd.
Roedd hyd yn oed y bath
yn ddu.



Yno, roedd Wini'n byw gyda
Mali'r gath. Roedd hi'n ddu hefyd.
Dyna oedd y drafferth.



Pan oedd Mali'n eistedd ar
y gadair â'i llygaid ar agor,
roedd Wini'n gallu ei gweld.
Wel, roedd hi'n gweld
ei llygaid beth bynnag.



Ond pan oedd Mali'n cysgu
ac wedi cau ei llygaid,
doedd Wini ddim yn gallu
ei gweld o gwbl.
Felly, roedd hi'n eistedd arni.



Pan oedd Mali'n gorwedd ar y carped â'i llygaid ar agor, roedd Wini'n gallu ei gweld. Wel, roedd hi'n gweld ei llygaid beth bynnag.





Ond pan oedd Mali'n cysgu
ac wedi cau ei llygaid, doedd Wini
ddim yn gallu ei gweld o gwbl.
Felly, roedd hi'n baglu drosti.




Un diwrnod, ar ôl baglu drosti, meddai Wini, 'Mae'n rhaid imi wneud rhywbeth.'
Cydiodd yn ei hudlath a'i chwifio ar unwaith. ABRACADABRA!
Nid du oedd lliw Mali wedyn, ond gwyrdd llachar!




Pan oedd Mali'n cysgu
ar gadair, roedd Wini'n gallu
ei gweld.




Pan oedd Mali'n cysgu ar
y llawr, roedd Wini'n gallu
ei gweld.



Ac roedd hi'n gallu ei gweld
pan oedd hi'n cysgu ar y gwely.
Ond, doedd Mali ddim i fod
i gysgu ar y gwely . . .




... felly aeth Wini â
Mali allan.
Allan ar y gwair.



Daeth Wini allan ar frys.
Baglodd dros Mali, rhowliodd
dair gwaith, a syrthiodd
ar ei phen i lwyn o rosynnau.



Ond pan oedd Mali'n eistedd
ar y gwair, doedd Wini ddim
yn gallu ei gweld, hyd yn oed
pan oedd ei llygaid ar agor.





Y tro yma roedd Wini'n grac iawn.
Cydiodd yn ei hudlath, chwifiodd hi
bum gwaith a . . .



. . . ABRACADABRA! Dyna lle'r oedd
Mali: pen coch, corff melyn,
cynffon binc, wisgars glas
a phedair coes biws.
Ond roedd ei llygaid yn wyrdd o hyd.

Roedd Wini'n gallu gweld Mali
pan oedd yn eistedd ar gadair,
yn gorwedd ar y carped,
yn cerdded drwy'r gwair . . .




. . . a hyd yn oed yn dringo
i ben y goeden uchaf.



Dringodd Mali i ben y goeden uchaf i guddio. Roedd hi'n edrych yn od ac roedd hi'n gwybod hynny. Roedd hyd yn oed yr adar yn chwerthin am ei phen.






Druan â Mali.
Roedd hi mor ddiflas.
Arhosodd ar ben y goeden
drwy'r dydd a thrwy'r nos.



Y diwrnod wedyn dyna
lle'r oedd Mali ar ben
y goeden o hyd ac roedd
Wini'n poeni.
Doedd hi ddim yn hoffi
ei gweld yn drist.

Yna, cafodd Wini syniad.
Chwifiodd ei hudlath.
ABRACADABRA! . . .
ac roedd Mali'n gath ddu
unwaith eto!
Daeth i lawr o'r goeden
a dechrau canu grwndi.



Yna, chwifiodd Wini ei hudlath drachefn,
a thrachefn a thrachefn.



Ac yn lle tŷ du,
roedd ganddi dŷ melyn,
y to a'r drws yn goch.
Roedd y cadeiriau'n wyn
a'r clustogau arnyn nhw'n
goch a gwyn. Roedd
y carped yn wyrdd
gyda rhosynnau pinc.



Roedd y gwely'n las,
y cynfasau'n binc a gwyn
a'r blancedi'n binc.
Gwyn disglair oedd y bath.

A bellach, mae Wini'n
gallu gweld Mali
ym mhobman.

